| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | 11eg Gorffennaf 2019 |
| **TEITL** | Prosiectau yn AHNE Llŷn |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwybodaeth am brosiectau diweddar y Gwasanaeth AHNE.

## 2.0 PROSIECT SBWRIEL MOROL

2.1 Er mwyn ceisio lleddfu rhywfaint at y sbwriel morol yn yr ardal ac annog mwy o ail-gylchu, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod lleoliadau amrywiol yn yr ardal i osod biniau ail-gylchu newydd.

2.2 Mae'r biniau hyn yn cynnwys rhannau i ail-gylchu gwahanol ddeunyddiau yn ogystal â rhan i roi sbwriel. Rydym yn cydweithio gyda Gwasanaeth Bwrdeistrefol y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect hwn.

## 3.0 PROSIECT MELINOEDD LLŶN

3.1 Dros y misoedd diwethaf, mae Glyn Roberts, Bryncroes wedi bod yn cynnal ymchwil ar ran y Gwasanaeth AHNE i hen adeiladau diwydiannol yn Llŷn. Mae'r ymchwil hwn yn cyd-fynd â pholisïau yn Nghynllun Rheoli'r AHNE (Rhan 'Amgylchedd Hanesyddol') a'r angen i adnabod, cofnodi ac asesu adnoddau hanesyddol yr ardal, gwarchod a chynnal a chodi ymwybyddiaeth amdanynt.

3.2 Ymunodd Glyn â stondin y Gwasanaeth AHNE yn Sioe Nefyn ddechrau mis Mai er mwyn arddangos canfyddiadau ei ymchwil. Yn ogystal hefyd – bydd ei waith i weld fel rhan o Arddangosfa arbennig yn Neuadd Sarn yn ystod penwythnos gŵyl y banc mis Awst eleni.

## 4.0 PLANHIGION ESTRON YMLEDOL

4.1 Mae'r gwaith yn parhau yn yr ardal i drin gwahanol rywogaethau ymledol. Rydym wedi bod yn cydweithio unwaith eto eleni gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i waredu'r Efwr Enfawr yn Afon Soch. Hefyd bwriedr ymgymryd â gwaith i drin Llysiau'r Dial yn ardal y traeth yn Nhrefor yn ogystal â pharatoi taflen wybodaeth.

## 5.0 PROSIECTAU MYNEDIAD/ GWELLA AMGYLCHEDD

5.1 Bu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus yn ddiweddar yn sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau mewn gwahanol ardaloedd yn Llŷn. Daeth y cyllid ar gael yn eithaf annisgwyl yn dilyn cyfle i gyflwyno ceisiadau a thrafodaeth gyda swyddogion. Bydd y cyllid hwn yn mynd tuag at:

- Welliannau i lwybrau yn ardal Cilan
- Wella mynediad i'r tir mynediad agored uwchlaw Gyrn Goch
- Arwyddion newydd ac adfer giatiau a llwybrau at Eglwys Carnguwch, Llwyndyrus
- Adfer wal gerrig sych sydd gyda'r lôn o bentref Llithfaen at dai Cae'r Nant

## 6.0 LLWYBR Y MORWYR

6.1 Mae'r prosiect hwn yn cynnwys gwella ac ail agor darnau o lwybr hanesyddol 10 milltir o hyd rhwng Nefyn a Llanbedrog, gan greu llwybr wedi ei arwyddo rhwng arfordir gogleddol a deheuol Penrhyn Llyn. Bydd diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod.

## 7.0 ARGYMHELLIAD

7.1 Gofynir i'r aelodau dderbyn yr wybodaeth uchod a rhannu ble bynnag bo modd.